**P-04-666 – Democratiaeth mewn Llywodraeth Leol.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Royston Jones ar ar ôl casglu 144 Llofnod

**Geiriad y ddeiseb**

*Yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd tuedd ar lefel llywodraeth leol yng Nghymru lle gwelwyd swyddogion anetholedig yn cymryd rheolaeth o awdurdodau lleol i bob pwrpas.*

*Yn ddieithriad, mae hyn yn digwydd pan fo grŵp bach o gynghorwyr yn cytuno i ddangos teyrngarwch i uwch swyddogion yn hytrach nag i'r cyngor y cawsant eu hethol iddo a'r bobl sy'n byw yn yr ardal leol.*

*Mae'n ddigwyddiad sy'n arwain at nifer o bryderon.*

*1. Pan fydd uwch swyddogion yn arfer pŵer a chynrychiolwyr etholedig yn cael eu hallgáu, i bob pwrpas, o'r broses gwneud penderfyniadau yna, yn amlwg, mae'r broses ddemocrataidd yn cael ei thanseilio ac nid oes atebolrwydd am yr hyn a wneir.*

*2. Os yw'r rhan fwyaf o gynrychiolwyr etholedig yn cael eu hallgáu o unrhyw rôl heb law am rai arwynebol, mae'n codi'r cwestiwn pam mae angen i gynghorau, sy'n brin o arian, dalu cymaint, mewn ffyrdd amrywiol, i eunuchiaid gwleidyddol.*

*Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fod yn ymwybodol o'r bygythiad hwn i ddemocratiaeth leol, ac os daw'n amlwg bod uwch swyddogion yn dylanwadu mewn ffordd amhriodol ac annemocrataidd ar drefniadau rheoli unrhyw awdurdod lleol, i rybuddio'r awdurdod hwnnw'n gyhoeddus mai'r cynrychiolwyr*

*etholedig yn unig sydd â'r pŵer i wneud penderfyniadau, ac os caiff y fath rybudd ei anwybyddu, i wneud yr awdurdod hwnnw'n destun mesurau arbennig.*

### *Gwybodaeth ychwanegol*

*Ni waeth beth yw maint eu cyflogau gormodol na pha gymwysterau sydd ganddynt, cyflogeion y cyngor a gweision yr etholwyr a'r boblogaeth ehangach yw uwch swyddogion llywodraeth leol o hyd.  Pan fyddant yn tanseilio democratiaeth drwy gymryd rheolaeth dros yr awdurdodau lleol sy'n eu cyflogi, mae hynny'n annerbyniol ac yn beryglus.*

*Ac eto, dyma'r union sefyllfa a welir mewn nifer o'n hawdurdodau lleol, ond, am resymau y gŵyr hi orau beth ydynt, mae Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu'r sefyllfa, er bod y broblem o ran uchafiaeth swyddogion wedi bod yn amlwg ers sawl blwyddyn.*

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru